Susanna Wesley 1669–1742

Mam John a Charles Wesley

Ganwyd Susanna Annesley ar 20 Ionawr 1669 yn Spital Yard, Bishopsgate, Llundain. Hi oedd merch ieuengaf y Parch. Samuel Annesley, gweinidog Anghydffurfiol, a'i wraig Mary White. Mae ei bywyd yn cysylltu tair gwedd ar fywyd modern Protestaniaeth yn Lloegr, sef Piwritaniaeth, Anglicaniaeth a Methodistiaeth a sut y cynorthwyodd y rhain ysbryd annibynnol menywod. Roedd ei theulu o gefndir Piwritanaidd pybyr. Bu ei thaid ar ochr ei mam yn eistedd yn y Senedd Hir (1640-48) ac yn gaplan yn llynges y senedd. Mae'n fwy na thebyg ei bod wedi derbyn addysg o dan arweiniad ei mam yn ei chartref yn Llundain.

Roedd yn amlwg ers pan oedd yn ifanc ei bod yn meddu ar feddwl annibynnol. Pan oedd yn dair ar ddeg penderfynodd gefnu ar Anghydffurfiaeth a throi at yr Eglwys Sefydledig. Daeth i adnabod gŵr ifanc o'r enw Samuel oedd o'r un anian â hi a oedd yn astudio yn Academi'r Sentars yn Llundain. Ar y dechrau ymddengys mai tröedigaeth gyffredin oedd sail eu cyfeillgarwch ond yn fuan syrthiasant mewn cariad â'i gilydd. Ymunodd ef â'r Eglwys Anglicanaidd ac o'r herwydd cafodd fynd i Rydychen ac fe'i hordeiniwyd fel diacon ac offeiriad. Priodasant yn Nhachwedd 1688 yn eglwys y plwyf St Marylebone, Llundain. Ym 1691 cafodd Samuel Wesley ei ofalaeth gyntaf yn South Ormsby, Swydd Lincoln. Chwe blynedd yn ddiweddarach symudodd y teulu i fyw i Epworth lle y sefydlwyd Samuel Wesley yn rheithor ac yno yr arosasant hyd ei farwolaeth ym 1735.

Fel gwraig rheithor rhoddodd ei safle gyfle iddi gyflawni'r disgwyliadau arferol oedd ar wraig yn y sefyllfa honno. Ond fel yr heriodd ddaliadau Anghydffurfiol ei thad fe heriodd hefyd y disgwyliadau traddodiadol oedd yn ei pherthynas gyda'i gŵr, ei phlant a'r eglwys. Aeth yn ffyddlon gyda'i gŵr i gefn gwlad Lincoln gan gefnu ar y cefndir dinesig yr oedd mor gyfarwydd ag ef. Ond yno defnyddiodd y gydwybod a feithrinwyd yn Llundain Biwritanaidd mewn cyd-destun uchel eglwysig Anglicanaidd i wrthwynebu awdurdod diwinyddol, gwleidyddol a phriodasol ei gŵr.

Roedd mor benderfynol fel y gwrthwynebodd safbwynt ei gŵr ynglŷn â'r frenhiniaeth a gadawodd ef y cartref am rai misoedd. Dychwelodd atynt ar ôl tân difrifol a fu yn y rheithordy ym 1702.

Un o'r prif resymau fod cymaint o wybodaeth gennym am Susanna Wesley yw oherwydd mai hi oedd mam John a Charles Wesley. Fe'i hystyrid yn Fadona Fethodistaidd a'r gwir yw, yn ôl rhai haneswyr, oni bai amdani hi ni fyddai Methodistiaeth wedi datblygu. Fe anwyd iddi 17 o blant a bu fyw deg ohonynt, saith o ferched a thri mab. Golygai maint ei theulu fod yn rhaid iddi gael trefn haearnaidd wrth eu magu. Gan mai ychydig iawn o gymorth yr oedd yn ei gael gartref, yn enwedig gan ei gŵr oedd yn llyfrbryf, ac oherwydd eu hamgylchiadau tlawd, roedd yn rheidrwydd arni fod yn eithriadol o drefnus er mwyn cadw'r blaidd o'r drws. Yn ôl safonau heddiw ystyrir ei dulliau'n chwyrn yn enwedig pan oedd yn sôn am 'goncro ewyllys plant'. Roedd ganddi drefn fanwl ar yr aelwyd, disgwyliai lawer gan y plant a gweithredai strwythur o'u genedigaeth. Ond yn gefn i'r ddisgyblaeth yr oedd cariad a sylw mam. Pan oedd un o'r plant yn cyrraedd pump oed, byddai'n aildrefnu amserlen yr aelwyd er mwyn treulio diwrnod cyfan yn rhoi eu gwers ddarllen gyntaf iddynt. Addasodd John a Charles Wesley yn rhwydd o ysgol eu mam i ysgolion bonedd a choleg yn Rhydychen. Am flynyddoedd lawer bu'n cynghori'r ddau ohonynt yn answyddogol ar faterion diwinyddol. Hyd yn oed pan oedd John yn Gymrawd yng Ngholeg Lincoln ac yn arweinydd Methodistiaeth roedd yn parhau i fod yn barod iawn i'w gynghori. Gofynnodd John iddi ysgrifennu cyfrif o'r modd yr addysgodd ei phlant ac fe'i cyhoeddwyd o dan y teitl *On educating my family*. Roedd hefyd yn flaengar wrth addysgu ei merched. Mynnai fod yn rhaid i'r merched ddysgu darllen cyn iddynt wneud unrhyw waith. Rhoddodd hefyd esiampl ymarferol i'r plant. Byddai'n encilio dair gwaith bob dydd i weddïo, myfyrio, darllen ac ysgrifennu. Ym 1711–12 fe gynhaliai ddyletswydd deuluaidd ar nos Sul. Denai'r rhain gymaint â 200 o bobl a esgeulusai yr addoliad ar fore Sul yn eglwys y plwyf. Ceryddwyd hi gan ei gŵr.

Wedi marwolaeth ei gŵr ym 1735 bu'n byw gyda'r plant. Treuliodd bedair blynedd olaf ei bywyd yng nghanolfan John Wesley yn y Foundery, Llundain, ac yno y bu farw ar 30 Gorffennaf 1742. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent yr Anghydffurfwyr, Bunhill Fields, ar 1 Awst.